# HINSAWDD HURT

## Stori Champa

‘Prynodd fy nhad ei dir trwy waith caled, ond aeth yr afon â’r tir i ffwrdd…’




Champa y tu allan i’w chartref yn Bangladesh




Pentrefwyr yn Bangladesh yn cerdded trwy’r llifogydd i nôl dŵr glân.

Mae Champa Hatun, sy’n 12 oed, yn ofni’r afon. Mae’n byw yn Bangladesh, de-ddwyrain Asia, gyda’i rhieni a phedwar brawd a chwaer. Maen nhw’n byw mewn bwthyn bychan un-ystafell ar lan yr afon Ganges. Collasant eu tir a’u cartref pan orlifodd yr afon.

**Gadael cartref**

Mae llifogydd yn digwydd yn Bangladesh yn amlach nag mewn unrhyw wlad arall yn y byd. Mae’r tir yn wastad. Cred gwyddonwyr os bydd cynhesu byd-eang yn mynd yn ei flaen a lefel y môr yn codi 45cm, bydd 10 y cant o’r wlad o dan ddŵr. Os digwydd hyn, bydd rhaid i 5.5 miliwn o bobl chwilio am le arall i fyw – tua’r un faint â phoblogaeth Yr Alban.*

Achosodd y llifogydd yn 2004 a 2007 ddifrod mawr. Fel Champa, bu raid i lawer o bobl symud gan fod eu tai wedi’u distrywio gan lifogydd. Erbyn 2050, yn ôl y gwyddonwyr, bydd newid hinsawdd wedi gorfodi dros 1 biliwn o bobl ar draws y byd i adael eu cartrefi.

Mae Champa wedi cynefino â’i chartref newydd ond dyw hi ddim am symud eto. Mae hi am i’r newid hinsawdd stopio. ‘Does gyda ni ddim syniad i ble’r awn ni pan ddaw’r afon lan i’r fan hyn. Bydd rhaid i ni symud eto.’

**Bwyd a dŵr glân**

Yn Bangladesh mae Cymorth Cristnogol yn gweithio gyda theuluoedd sydd wedi eu heffeithio gan lifogydd. Mae’n darparu bwyd iddyn nhw ac yn helpu i buro’r dŵr a’i wneud yn ddiogel i’w yfed, achos pan fydd dŵr llif yn mynd i mewn i’r ffynhonnau mae’n llygru’r dŵr yfed. Mae Cymorth Cristnogol yn helpu pentrefwyr i ailadeiladu eu tai ac yn rhoi benthyg arian i deuluoedd fel y gallan nhw brynu hadau i ail hau y cnydau a gollwyd yn y llifogydd.

Mae Cymorth Cristnogol hefyd yn helpu teuluoedd i baratoi gogyfer â llifogydd yn y dyfodol, yn codi adeiladau oddi ar y ddaear sy’n rhoi lle diogel pan ddaw’r llifogydd. Gall pobl hefyd ddysgu sgiliau cymorth cyntaf a sut i rybuddio eraill bod llifogydd yn dod. Mae’r pethau hyn yn gallu arbed llawer o fywydau.

Benthyciodd teulu Champa arian er mwyn rhentu peth tir i dyfu reis ac i dalu i Champa a’i brodyr a’i chwiorydd i fynd i’r ysgol. Mae Champa am orffen ysgol fel y gall ennill arian a helpu ei theulu ‘trwy wneud yn sicr bod gyda ni le saff i fyw’.

* Amcangyfrif o boblogaeth Yr Alban ar Fehefin 30, 2006 oedd 5,116,900 (ffigwr o Swyddfa Cofrestr Cyffredinol Yr Alban)

© Cymorth Cristnogol, Hydref 2007

# HINSAWDD HURT

## Stori Fatimata

**'Mae pobl ac anifeiliaid yn marw am ei bod yn rhy boeth.'**




Ffrindiau gorau – Aissata (chwith) a Fatimata (de)




Mae sychdwr yn gwneud y tir yn sych a llawn craciau.

Mae Fatimata Louty Ba yn 12 oed a'i ffrind gorau Aissata Abdourahmane Sall yn 11. Maen nhw'n credu mai'r peth caletaf am fyw yng ngogledd Senegal, gorllewin Affrica, yw'r gwres a'r gwynt. Dyw Senegal heb gael llawer o law dros y 30 mlynedd diwethaf a thorrwyd llawer o goed i lawr i'w defnyddio fel coed tân. Heb goed, mae'r pridd iach yn cael ei chwythu i ffwrdd ac ni fydd y cnydau'n tyfu mor dda. Mae'r ffermwyr yn awr yn ei chael hi'n anodd i ennill bywoliaeth ac yn aml does gan deuluoedd ddim digon i'w fwyta.

**Newid yn y tir**

Mae rhai o'r bobl hŷn yn cofio amser pan oedd y tir yn edrych tipyn yn wahanol. Meddai Houleymata Diallo sy'n 60 oed – 'Wrth i amser fynd heibio, mae'r coed wedi diflannu.'

Ffermwr oedd Abdoulaye Noliaye, 57 oed, cyn i'r sychdwr ddod a chyn i'r coed gael eu torri. Mae e'n credu bod mwy o'r tir yn troi'n anialwch. 'Mae'r anialwch... yn rhoi llawer o haul i ni, yn achosi i'r gwynt i chwythu ac yn mynd â'r maeth (daioni) allan o'r pridd.' Ef nawr yw llywydd grŵp lleol sy'n edrych ar ôl y tir. Mae Cymorth Cristnogol yn helpu'r grŵp i ddysgu sut mae plannu a gofalu am goed.

**Plannu coed**

Mae coed yn help am eu bod...

- **yn cydbwyso nwyon :** mae coed yn amsugno'r nwyon fel, $CO_2$, sy'n achosi cynhesu byd-eang ac yn creu nwyon eraill fel ocsigen sydd ei angen ar bobl i anadlu
- **dod â glaw :** mae'r anwedd dŵr yn casglu yn yr awyr i ffurfio cymylau. Ac y mae cymylau yn dod â glaw!
- **cynhyrchu ffrwythau :** fel mangos a lemonau sydd yn rhoi bwyd i'r ffermwyr a'u teuluoedd a rhywbeth i'w werthu
- **cadw pridd iach yn ei le :** mae coed yn helpu i ddal pridd yn ei le ac yn atal y gwynt rhag ei chwythu i ffwrdd
- **atal y tir rhag troi'n anialwch :** mae coed yn helpu i gadw dŵr yn y ddaear.

© Cymorth Cristnogol, Hydref 2007